

Gwirfoddolwyr yn y Steddfod

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn nesáu, daeth tri chais am wirfoddolwyr. Os gallwch helpu i wneud paned ym **Mhabell yr Eglwys** ar y dydd Mawrth, cysylltwch â Haf Tan y Graig (582215), neu ar y dydd Gwener, cysylltwch â Glenys Roberts, Yr Acre (870221), os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, mae **Tearfund** yn gofyn yn garedig am wirfoddolwyr i helpu ar eu stonin hwythau. Os gallwch gynnig eich gwasanaeth am 3 awr naill ai ar y dydd Sadwrn cyntaf, dydd Mawrth, dydd Iau, neu'r dydd Sadwrn olaf, plis cysylltwch â Jean Preston ar 01650 531408 neu sianpreston@btinternet.com.

Taith i Gwmban?

Er bod nifer o gapeli yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu cau a chynulleidfaoedd eraill wedi mynd yn wan iawn, mae yna sawl eglwys wedi ei phlannu ac mae rhai arwyddion cadarnhaol bod adnewyddiad ysbrydol yn digwydd. Mae'n siŵr i nifer ohonoch glywed ar y newyddion yn ddiweddar am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yng Nghwmban dros y ddau fis a hanner diwethaf, a hynny bum noswaith yr wythnos, lle mae miloedd o bobl wedi tyrru yno ac sy'n honni iddynt brofi grym a dylanwad yr Ysbryd Glân, gyda nifer ohonynt yn cael eu hiachau.

Mae rhai o'r Ofalaeth hon wedi mynegi diddordeb i fynd draw i un o'r cyfarfodydd yno. Gan fod Cwmban gryn bellter o Fro Aled – tua 4 awr o daith, byddai'n haws inni wneud trefniadau wedi cael gwybod pwy sydd â gwir diddordeb. Mae'r cyfarfodydd yn cychwyn am 7.00 yr hwyr ond yn para am fwy o amser na'n cyfarfodydd arferol ni!! Os oes diddordeb gennych, a wnewch chi adael i Mair wybod erbyn Gorffennaf 14eg, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ystyried trefnu taith yno?

I ddod

- **Cyflwyniad syml i Gristnogaeth** – Cynhelir yr ail sesiwn nos Fawrth, Gorffennaf 16eg am 7.30 i'r rhai 15+ sy'n ystyried dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys. Lleoliad i'w gadarnhau.
- **Adnabod Cymdeithasol** - Taith Gerdded Hamddenol nos Fercher, Gorffennaf 17eg. Cychwyn ger y capel yn Henllan am 6.30.
- **Coleg y Bala:**
 - **Cwrs Ieuencid (Blwyddyn 7-11)** – Gorffennaf 29ain - Awst 2il.
 - **Anrhefn Awst (8-11 oed)** – Awst 12fed – 15fed.
 - **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** – Awst 17eg – 23ain.

Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau. (Os bydd y coffrau'n caniatu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Gorffennaf 2013

Darlleniad y Dydd

Ioan 13:1-11

(BCND tud.117 / BCN: tud.108)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da i chi a phob dymuniad da i chi heddiw. Yr wythnos diwethaf cawsom Sul i'w gofio ac ateb i'n gweddiâu am fendith yr Ysbryd. Duw yn dymuno'n dda i ni ydi hynny! Ac fe gawsom brofiad o'i ddaioni wrth wrando'r Gair, cydweddiö a chydganu ei foliant yng nghwmni'r plant a chriw CIC a CAP sydd wedi bod mor ffyddlon dros y flwyddyn. Mae Duw yn dymuno bendithio holl deuluoedd y Fro a braf oedd cael cwmni'n gilydd o bob oed a gweld y plant a'r oedolion yn adrodd eu penillion a'u hadnodau mor hyderus ac yn canu'n llawen i'r Argwydd. Mi roedd yn fendith go iawn cael bod hefo'n gilydd yng nghwmni'r Arglwydd a'i gael yn agos.

Clywsom gan Steff am gariad Duw a'i ras tuag atom ac fe'n heriwyd gan hanesion o'r Beibl i wisgo amdanom y natur newydd a gawsom yng Nghrist a byw i garu Duw a charu'n cymydog fel ni ein hunain. Doedd hi ddim yn hawdd gwrando ar ddameg y Samariad Trugarog, yn enwedig i Rhodri a fi, gan i Steffan ein gosod ni'n dau yn sgidiau yr Offeiriad a'r Lefiad yn yr hanes – y ddau ddyn crefyddol ddaru basio heibio i'r un a syrthiodd i blith lladron! Cawsom ein herian yn arw am hynny trwy'r dydd ac mae'r gwir yn brifo pob tro! Diolch fyth na ddaru Iesu basio heibio i ni pan oeddem ni mewn angen mawr, yn yr angen mwyaf i gyd – yr angen am gael golchi'n clwyfau ac am fywyd! Gan fod ein hangen ni mor eithafol, y mae ateb Duw yr un mor eithafol.

Yn y darlleniad heddiw mae Ioan yn dweud i Iesu garu'r rhai sy'n eiddo iddo 'i'r eithaf' (adnod 1). Fedr o ddim ein caru ni'n fwy – y mae wedi cyrraedd y pen, yr eithaf un! Ystyr arall ydi ei fod wedi ein caru 'hyd y diwedd'. Y mae Iesu wedi ein caru hyd ddiwedd ei oes i'r eithaf o roi ei fywyd trosom ar y groes. Ond gan iddo atgyfodi, nid oes diwedd rwan ar ei gariad nac ar ei ddymuniadau grasol o'n plaid. Does dim diwedd i gariad Duw, na dim gwahanu i fod rhwng y rhai a achubwyd o blith y lladron i ofal a bywyd yng Nghrist.

'Ewch a gwnewch chwithau'r un modd' – bod yn debyg i'r Samariad Trugarog – oedd gair Iesu ar ddiwedd y ddameg a rhaid i ninnau ddangos yr un math o gariad i'n cymydog. Golchi traed ein gilydd.

Aneurin

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Celfyn neu Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa bydd Bethan, merch fach Darryl a Helen yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn ystod yr oedfa, fe fydd yr eglwys yn Nhanyfron yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Yn dilyn yr oedfa bydd yr aelodau yn mynd ar bererindod ac yn cael cinio yn y Stamford Gate cyn mynd ymlaen i Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yno.
- Sul nesaf Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Iau Bydd Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Cefn Berain yn mynd am drip i Eglwys Llandrillo yn Rhos ac yn cychwyn o Gefn Berain am 1.30.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Beti Evans (Tanyfron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Glyn. Gweddïwn y byddant fel teulu yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu yn eu profedigaeth.
- Parhawn hefyd i gyflwyno i ofal yr Arglwydd yr aelodau hynny sydd heb fod cystal eu hiechyd. Cofiwn am Maldwyn Jones (Cefn Berain) gafodd ei symud yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, a hefyd Gwen Jones (Tanyfron) gafodd anffawd yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr i'r ddau wrth inni eu codi hwy, ac eraill sydd mewn angen, gerbron Duw.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr R. J. Davies (Amber House); Mrs Morfydd Williams (Southern House); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy). Hyderwn eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.